

## **Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol**

**Dyddiad** 09 / 03 / 2021

**Amser** 10.00 - 11.30

**Lleoliad** Microsoft Teams

**Yn bresennol** Y Cynghorydd Bobby Feeley (BF); Cynghorydd Barry Mellor (BM);  
Cynghorydd Brian Jones; Cynghorydd Graham Timms (GT);  
Cynghorydd Joe Welch (CJW); Cynghorydd Tony Thomas (TT);  
Cynghorydd Arwel Roberts (AR); Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK)

**Ymddiheuriadau** Judith Greenhalgh (JG); Nicola Kneale (NK);

**Yn bresennol** Swyddogion Cefnogi: Helen Vaughan-Evans (HVE); Liz Wilcox-Jones (LWJ); Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Andrew Cutts (AC); Heidi Barton-Price (HBP); Joel Walley (JW); Tony Ward (TW); Alan Smith (AS)

Cynghorywyr yn Arsyllun: Cynghorydd Ellie Chard (EC), Cynghorydd Ann Jones (AJ), Cynghorydd Meirick Ll. Davies, (MD)

### **1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd, GT, bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Llongyfarchodd GT y tîm ar basio'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol ac am eu llwyddiant mewn cyfnod mor fyr o amser.

### **2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol: 09.03.21

CAM GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
<p>RP – bydd yn rhoi manylion cyswllt y swyddog arweiniol ar y defnydd o dir yn Llywodraeth Cymru er mwyn i gynrychiolwyr CSDd gael cyfarfod.</p>	<p>DISODLWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd HVE yn cael cyfarfod creu Coetiroedd/Coedwig Genedlaethol gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a CLILC ddiwedd mis Mawrth.</li> </ul>
<p>HVE – i wneud newidiadau i'r llythyr at Lesley Griffith AC a'i anfon at BJ i'w adolygu.</p>	<p>AR Y GWEILL</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fersiwn diweddaredig wedi'i anfon at BJ yn dilyn mabwysiadu'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.</li> </ul>
<p>GT – fel Cadeirydd y gweithgor, awgrymu wrth Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu bod cyfle i adroddiad ysgrifenedig gan Arlwy Ysgolion fynd i Craffu ym mis Medi/Hydrif 2021 ynghylch y cynnydd a wnaed ar garbon isel a lleihau'r defnydd o blastig un defnydd.</p>	<p>AR Y GWEILL</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>I'w godi yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 11 Mawrth.</li> </ul>
<p>HVE – i ddarparu rhestr o Gynghorwyr nad ydynt eto wedi cadw lle ar yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer cynghorwyr y gweithgor hwn er mwyn eu hannog i fanteisio ar y cyfle.</p>	<p>CWBLHAWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>26 allan o 46 Cynghorydd (57%)</li> </ul>
<p>LWJ – hyrwyddo'r llyfnydd sydd ar ôl i bob aelod o staff o Ionawr 28.</p>	<p>CWBLHAWYD</p>

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac

Ecolegol: 09.03.21

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 100% o'r llefydd oedd ar gael wedi'u bwcio</li> <li>• <i>"presenoldeb gorau o bell ffordd i awdurdod lleol, llongyfarchiadau"</i> (adborth gan Hyfforddwr APSE)</li> </ul>
LWJ – dyfeisio cynllun newid ymddygiad a chyfathrebu ar gyfer 2021/22.	AR Y GWEILL <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drafft yn cael ei drafod gyda Chyfathrebiadau Corfforaethol ganol mis Mawrth.</li> </ul>
GT – gweithio gyda Rhian Evans a Steve Price ar opsiynau posibl ar gyfer dyfodol y gweithgor ar ôl mis Mawrth. Adrodd yn ôl i'r grŵp.	CWBLHAWYD <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar y rhaglen heddiw</li> <li>• I'w godi yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 11 Mawrth.</li> </ul>
HVE – ychwanegu dyfodol y gweithgor ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod mis Mawrth	CWBLHAWYD
HS/LWJ i ymateb i lythyr NMWTRA/LIC ynghylch torri coed ar yr A5/A494	AR Y GWEILL <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb wedi'i ddrafftio – i gael ei anfon yr wythnos hon</li> </ul>
HVE – ychwanegu'r prosiect clefyd coed ynn fel eitem bosibl ar gyfer rhaglen cyfarfod rywdro yn 2021/22, yn dibynnu ar grŵp y dyfodol, fel yr awgrymodd TW.	AR Y GWEILL

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac

## Ecolegol: 09.03.21

TB – dod â rhagor o wybodaeth am y matrices caffael a gwaredu tir i'r cyfarfod nesaf (mis Mawrth)	CWBLHAWYD <ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad ar lafar i gael ei ddarparu</li></ul>
---	---

### Materion yn codi

BJ – anfonodd Helen y drafft at Brian o'r llythyr at Lesley Griffiths, ac yn cytuno y dylid ei anfon

AR – wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y cwrs Llythrennedd Carbon. Holodd a ellid darparu rhagor o wybodaeth ar yr ystadegau mynychu h.y. canran o cynghorwyr / staff sydd wedi cael yr hyfforddiant. HVE – rhoddodd wybodaeth gryno ar bresenoldeb ar yr hyfforddiant a phwy fynychodd. Anogodd Aelodau i gwblhau'r cam gweithredu dilynol, sef cwblhau eu cynlluniau gweithredu llythrennedd carbon ar ôl bod ar y cwrs er mwyn iddynt ennill Achrediad Llythrennedd Carbon.

TB – atgoffodd y grŵp o'r hyn a drafodwyd yn y sesiwn ddiwethaf mewn perthynas â caffael tir i ddibenion cynyddu atafaelu/dal carbon a chyfoethogi rhywogaethau. Grŵp o uwch swyddogion wedi'i gynnull i drafod y cynllun prynu/gwaredu tir, yn cynnwys cymysgedd o swyddogion y tîm asedau tir, newid hinsawdd a swyddogion Cefn Gwlad. Datblygiad teclyn matrices i helpu i benderfynu pa safleoedd yr hoffem eu caffael yn ogystal â'r rhai yr hoffem ddal ein gafaal arnynt a fyddent dan amgylchiadau arferol wedi cael eu gwaredu.

AR – holodd a yw ysgolion o fewn y cwmpas. Cadarnhaodd TB eu bod nhw, ond ychwanegodd mai ardaloedd mawr sy'n angenrheidiol mewn gwirionedd, a phlannu clwstwr fel bod coed yn gorchuddio o leiaf 20% o'r tir.

GT – gofynnodd a oes rhagfynegiad o faint y bydd ein tirwedd wedi newid ymhen 20 mlynedd oherwydd hyn? TB - mae hyn yn dibynnu ar gyllid. Mae 20 mlynedd yn gyfnod eithaf byr ym mywyd coeden ond gobeithir y bydd newid arwyddocaol i'w weld yn y tymor

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac

## Ecolegol: 09.03.21

hir. JW - gall natur ddod ati'i hun yn gyflym iawn. Hyd yn oed os nad oes gennym goetiroedd llwyr sefydledig erbyn hynny, byddem yn gobeithio gweld newid cyflym mewn adferiad rhywogaethau. Mae tystiolaeth o hyn eisoes i'w weld yng nghefn gwlad hyd yn oed ar ôl dim ond cyfnod byr o amser. HS – mae tir sy'n agos at ir arall yr ydym yn berchen arno yn ddefnyddiol a theimlir y dylid hefyd ystyried hygyrchedd ochr yn ochr a

### **CAMAU GWEITHREDU**

- **BJ-** i anfon llythyr at Lesley Griffiths AC ar e-bost.
- **LWJ-** i roi rhagor o ystadegau ar bresenoldeb yn yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon unwaith y bydd pob cwrs wedi'i gyflwyno.

sut y bydd y cyhoedd yn manteisio. HVE – i atafaelu 9440 tonnau o garbon erbyn 2030 rydym yn amcangyfrif y bydd ar y Cyngor angen 1,294 hectar ychwanegol o dir ar gyfer goetir yn ei berchnogaeth a dan ei reolaeth erbyn 2030. Mae cyn gyfwerth â tua 1.5% o ardal Sir Dinbych a chyfwerth a tua 12% o ardal bresennol coediwg Clocaenog.

Amcangyfrifon yw'r ffigyrau ond fe'u darperir i roi syniad o faint yr uchelgais. Nid ydym yn gweithio ar ein pennau'n hunain, e.e. mae LIC yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhan orllewinol y sir.

AD - mae llawer o dir yn Rhuddlan sy'n addas ar gyfer plannu coed ond mae gan CADW gyfyngiadau. Byddai plannu coed i'w groesawu yn enwedig oherwydd colled yn sgil llifogydd. HW – mae colled coed yn yr ardal honno'n broblem ond mae'n digwydd yn bennaf ar dir preifat. Atgoffwyd yr aelodau eto bod yn rhaid i'r coed sy'n cael eu plannu fod ar dir sy'n eiddo i ac yn cael ei redeg gan CSDd i gyfrannu at nod Carbon Sero-Net y Cyngor ac mae angen i ni feddwl ar raddfa fwy.

### **3. Thema: Myfyrio ynghylch cynnydd ac edrych tua'r dyfodol**

Aeth Helen â'r grŵp drwy'r cyraeddiadau hyd yma ar yr agenda hwn ers datgan yr Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

Cynnydd ers y Datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019.

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol: 09.03.21

Datgan Argyfwng Hinsawdd	Cynnydd a wnaed yn 2019/20 a 2020/21
Datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datganiad wedi'i wneud ym mis Gorffennaf 2019</li> <li>• Cyllideb o £200k ar gyfer 2020/21 i alluogi cynnydd gyda gwaith mewn ymateb i ddatgan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol</li> <li>• Newid i gyfansoddiad y Cyngor ar wneud penderfyniadau ym mis Hydref 2020 fel bod taclo newid hinsawdd ac ecolegol yn cael ei ystyried.</li> </ul>
Ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdod yn ddi-garbon erbyn 2030 fan bellaf.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021/22 – 2029/30 wedi'i mabwysiadu ym mis Chwefror 2021 yn cynnwys targed o fod yn Gyngor Carbon Sero-net erbyn 31 Mawrth 2030.</li> <li>• Cyllideb o £389k ar gyfer 2021/22 i gyflogi staff parhaol a chael hyd at £2.8m o gyfalaf ar gyfer cyflawni targedau.</li> </ul>
Sefydlu grŵp tasg a gorffen i lunio cynllun clir o fewn 6 mis i gyflawni'r uchod, gan gynnwys dulliau o wella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol wedi'i sefydlu – cyfarfod cyntaf mis Hydref 2020, cyfarfod yn fisol (yn gyffredinol).</li> <li>• Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021/22 - 2029/30 wedi'i mabwysiadu ym mis Chwefror 2021 yn cynnwys bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 31 Mawrth 2030.</li> </ul>

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac

Ecolegol: 09.03.21

Datgan Argyfwng Hinsawdd	Cynnydd a wnaed yn 2019/20 a 2020/21
<p>Galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n galluogi i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella bioamrywiaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Wedi cyflwyno ymatebion ymgynghori ar sawl cynllun/strategaeth LIC cysylltiedig â charbon.<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynrychiolaeth ar Banel Strategaeth Ddadgarboneiddio Llywodraeth Leol Cymru gyfan.</li></ul></li></ul>
<p>Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gynorthwyo i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfrannu at ffrwd waith Gwydnwch Amgylcheddol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.</li><li>• Cyfrannu at grŵp swyddogion Dadgarboneiddio Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.</li><li>• 2 x ymgysylltiad/ymgynghoriad cyhoeddus Ionawr/Chwefror 2020 a Tachwedd/Rhagfyr 2020.</li><li>• Cyfathrebu'n rheolaidd â'r cyhoedd drwy ddatganiadau i'r wasg, y wefan e-byst y rhestr bostio werdd a fforymau trafod y Cyngor.</li><li>• Ymgysylltiad a deialog gyda'r sefydliad ymbarél trydydd sector Creu Cymunedau Gyda'n Gilydd.<ul style="list-style-type: none"><li>• Arweinwyr yn galw ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried newid hinsawdd ac ecolegol yn eu</li></ul></li></ul>

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol: 09.03.21

Datgan Argyfwng Hinsawdd	Cynnydd a wnaed yn 2019/20 a 2020/21
	gweithgareddau ar gyfer twf yn y rhanbarth.

## Cyllideb Argyfwng Hinsawdd £200k 2020/21

Aeth HVE â'r grŵp drwy'r meysydd allweddol o wariant a alluogwyd drwy'r gyllideb Argyfwng Hinsawdd unwaith yn unig ar gyfer 2020/21, yn cynnwys cyflogi staff, datblygu prosiectau hyd y cam cynllun busnes, cyflwyno system Rheoli Ynni a Charbon ar gyfer monitro a thargedu gostyngiad mewn carbon o adeiladau, gydag arian cyfatebol er mwyn cael grantiau allanol a chyflwyniad yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer Awdurdodau Lleol.

## Cynlluniau ar gyfer llywodraethau a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen

Trafodaeth ar opsiynau ar gyfer monitro, herio a chefnogi cynnydd o ran darparu'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

Eglurodd GT y papur opsiynau a fydd yn cael ei drafod yng Nghyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu ym mis Mawrth. Mae problem gyda capasiti o fewn y Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Swyddfa Rhaglen Newid Hinsawdd wedi cynnig cefnogaeth. Efallai bod bob mis yn rhy aml o ystyried capasiti swyddogion. Mae cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o barhau â gweithgor gwleidyddol trawsbleidiol ar gyfer 2021/22, blwyddyn 1 darpariaeth y strategaeth, 3 cyfarfod yn ystod y flwyddyn.

BJ – Pwyllgorau Craffu yn ffordd dda o gadw llygad ar gynnydd.

AS – ddim eisiau colli'r brwdfrydedd. Mae hi'n bwysig bod â dulliau mwy anffurfiol o gadw diddordeb aelodau a staff a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Cafwyd trafodaeth ynglŷn a defnyddio sesiynau briffio'r Cyngor.



# **Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol: 09.03.21**

BF – trafodaeth am fanteision bod â phortffolio cabinet dynodedig ar yr agenda newid hinsawdd ac ecolegol pan fydd y Cyngor newydd yn cael ei ffurfio ar ôl etholiadau lleol mis Mai 2022.

Edrych ymlaen at 2021/22 a Blwyddyn 1 o ddarpariaeth y strategaeth

HVE – mynd â'r grŵp drwy'r prosiectau/gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2021/22 dan y ffrydiau gwaith canlynol: Adeiladau, Teithio'r Fflyd, Teithio ar wahân i'r Fflyd, Gwastraff, Cadwyn Gyflenwi, Defnydd o Dir, Bioamrywiaeth a Newid Ymddygiad.

GT – diolch yn fawr i'r holl bobl sy'n rhan o'r gwaith, y cabinet, swyddogion a phawb sy'n chwarae rhan y tu ôl i'r llenni i gefnogi'r gweithgor gwleidyddol hwn.

Diolchodd i Judith am ei chefnogaeth fel Noddwr y Rhaglen

## **CAMAU GWEITHREDU**

**GT/BJ** – I drafod dyfodol y gweithgor hwn yn 2021/22 cyn cyfarfod mis Mawrth Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

## **4. Unrhyw fater arall**

Dim mater arall i'w godi.